Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Llyfrgelloedd Cymru

## Adolygiad Blynyddol 2016

# Cynnwys

3 Rhagair

4 Cyflwyniad

5 Prif Ystadegau

6 Astudiaeth achos 1

8 Llyfrgelloedd cyhoeddus

10 Astudiaeth achos 2

12 Llyfrgelloedd academaidd ac arbenigol

14 Astudiaeth achos 3

OGL
ISBN digidol 978 1 4734 9836 5
© Hawlfraint y Goron 2017 WG31888
Delweddau © Llywodraeth Cymru – Llyfrgelloedd Cymru

# Rhagair

Tu ôl i glawr llyfr, mae antur yn disgwyl amdanom – antur sy'n mynd â ni i fyd dychmygol, neu'n rhoi cipolwg i ni ar y byd o'n cwmpas. Cafodd 2016 ei dynodi'n Flwyddyn Antur, ac roeddwn yn falch bod y llyfrgelloedd wedi mynd i'r afael â'r thema hon mewn ffyrdd creadigol a chyffrous, fel yr her Darllen Beiddgar a drefnwyd gan lyfrgelloedd cyhoeddus y Gogledd.

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, roedd 2016 yn flwyddyn anodd arall i'r gwasanaethau cyhoeddus, a bu i lyfrgelloedd ym mhob sector wynebu heriau ariannol. Fodd bynnag, rwy'n falch bod y defnydd cyffredinol a wnaed o wasanaethau'r llyfrgelloedd, yn enwedig y gwasanaethau digidol, wedi parhau i fod yn gadarn. Mae'r rhain yn wasanaethau cymunedol sy'n agos at galon llawer. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau llyfrgell a'u cefnogi, ac mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru'n darparu fframwaith ar gyfer darparwyr gwasanaethau, ond hefyd ar gyfer y cyhoedd er mwyn iddynt wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau llyfrgell. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus "cynhwysfawr ac effeithlon" o ansawdd uchel er budd pawb.

Yn 2016, cyhoeddais ddatganiad diwylliant ar gyfer Cymru, Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r dirwedd ddiwylliannol ragorol sydd gennym yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi sut y mae diwylliant yn cyfrannu at raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-21, ac mae llyfrgelloedd yn rhan o'r cyfraniad hwnnw. Mae llyfrgelloedd yn chwarae rôl bwysig o ran annog pobl i ymddiddori mewn diwylliant a chreu cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant a threftadaeth. Maent yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent yn hollbwysig i greu cymunedau cynaliadwy ac i hybu llwybrau i rymuso unigolion.

O edrych i'r dyfodol, rwy'n gwybod y bydd llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella bywydau pobl yn uniongyrchol, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Nid yw'r her ariannol yn debygol o gilio yn y dyfodol agos, felly mae angen inni sicrhau bod ein gwasanaethau llyfrgell mor effeithlon a chynaliadwy â phosibl. Yn ôl yr arfer, rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n gweithio yn ein llyfrgelloedd ledled Cymru am yr hyn y maent yn ei wneud i ddarparu gwasanaethau llyfrgell gwerthfawr ac uchel eu parch i bobl Cymru.



**Ken Skates, AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

# Cyflwyniad

Yn 2016, daliodd y llyfrgelloedd ati i ddarparu ac i ddatblygu eu gwasanaethau, gan helpu pobl i gyflawni eu hamcanion neu i wella eu bywydau mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, gwasanaeth llyfrgell Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen oedd y cyntaf yng Nghymru i ennill statws Deall Dementia. Mae holl staff y llyfrgell yn 'ffrindiau dementia' ac mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cynnal gweithgareddau penodol, fel sesiynau Darllen i Fi yn y cartref, ac yn darparu casgliad o lyfrau arbennig ar gyfer pobl sy'n colli eu cof. Mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi dilyn yr esiampl hon ac ennill statws Deall Dementia hefyd.

Bu'r llyfrgelloedd hefyd yn darparu ar gyfer y genhedlaeth iau. Yn 2016, cafwyd dathliadau i nodi canmlwyddiant geni Roald Dahl yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau Roald Dahl mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys cystadleuaeth 'Chwilio am yr Eirinen Wlanog Enfawr' i rai dan 12 oed mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, Sialens Ddarllen yr Haf 2016 yn seiliedig ar y thema Darllen Mawr Direidus, penwythnos Dinas yr Annisgwyl yng Nghaerdydd ym mis Medi, a the parti Roald Dahl a gweithdai ysgrifennu creadigol i blant yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Roedd gwaith partneriaeth yn dal i fod yn elfen bwysig o'r gwasanaethau llyfrgell. Drwy Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, cafodd nifer o brosiectau llyfrgell eu cefnogi, gan gynnwys grantiau Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol i foderneiddio ac i gyd-leoli gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Y chwe llyfrgell oedd: Aberhonddu, y Bala, Hwlffordd, Rhyd-y-car, y Sblot (Caerdydd) a Threffynnon.

Ym mis Mawrth 2016, bu i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd lansio gwasanaeth arloesol Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol Cymru. O ganlyniad i waith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, gall pawb sy'n aelod o lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ddefnyddio gwasanaeth llyfrgell digidol am ddim. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys papurau newydd ar-lein, e-lyfrau, e-gronau ac e-lyfrau sain, yn ogystal ag amryw o gyfeiriaduron ar-lein. Mae'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol ar gael drwy wefan llyfrgelloedd.cymru.

I gyflawni'r pethau hyn, a llawer mwy, bu'n rhaid i'r llyfrgelloedd daro cydbwysedd rhwng gwahanol safbwyntiau ac anghenion, gan ymdopi'n aml â chyllidebau llai. Yn ystod y broses hon, sefydlwyd rhai llyfrgelloedd newydd sy'n cael eu rheoli gan y gymuned ar ôl eu trosglwyddo o ddwylo'r awdurdodau lleol.

Mae ymroddiad parhaus staff, cefnogwyr a defnyddwyr y llyfrgelloedd yn sicrhau bod modd i holl bobl Cymru barhau i gael budd o wasanaethau llyfrgell.






# Llyfrgelloedd 2016 Prif Ystadegau

**46%**
o bobl Cymru yn defnyddio eu llyfrgell

**Dros 10 miliwn**
o lyfrau wedi'u benthyg o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

**Dros 3.7 miliwn**
o ymholiadau wedi'u hateb gan staff llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

**51%**
o bobl ifanc 15-24 mlwydd oed yng Nghymru yn defnyddio eu llyfrgell

**Mae oddeutu 3/4**
o bobl Cymru yn dweud bod llyfrgelloedd yn bwysig yn eu cymuned

Pobl Cymru yn defnyddio dros **1.5 miliwn** o oriau o ddefnyddio cyfrifiaduron am ddim mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

**13,428,276**
o ymweliadau i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn cyfateb â llenwi **Stadiwm y Principality** dros **180 o weithiau**

Ffynonellau:
CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) (2016) Public Library Actuals 2015-16
Carneige Trust UK (2017) Shining a Light: Welsh data about attitudes to and use of public libraries 2011-2016

# Astudiaeth achos 1

## Iechyd a llesiant, cynhwysiant cymdeithasol, sgiliau digidol

Mae Gloria* wedi dioddef iechyd meddwl gwael ers iddi droi'n oedolyn. Mae darllen bob amser wedi bod o gymorth iddi drwy ei helpu i ymlacio a thynnu ei sylw oddi ar ei phryderon. Dywedodd Gloria: "Mae darllen wedi bod yn elfen gyson yn fy mywyd, drwy'r dyddiau da a'r dyddiau drwg. Rwy'n dibynnu'n llwyr ar y gwasanaeth llyfrgell. Alla i ddim fforddio prynu llyfrau ac mae fy llyfrgell leol yn gallu cael gafael ar y llyfrau rwy' am eu darllen am ddim."

Bedair blynedd yn ôl, daeth trasiedi deuluol i ran Gloria a barodd iddi ddioddef iselder. "Fe ges i fy rhoi ar restr aros i weld cwnselydd, ond yn y cyfamser, y llyfrgell oedd yr unig le lle roeddwn i'n teimlo'n well. Roeddwn i'n ystyried staff y llyfrgell fel cwnselwyr! Yr eiliad rwy'n cerdded drwy ddrysau'r llyfrgell, rwy'n teimlo'n well; mae'n hafan ac yn noddfa. Mae gwasanaeth cwsmeriaid y staff yn unigryw. Maen nhw wastad yn barod i roi o'u hamser a gofyn sut ydw i. Mae'r llyfrgell yn fy helpu i ddechrau'r dydd ar nodyn calonogol. Rwy' bob amser yn gadael â gwên ar fy wyneb. Mae'n codi fy nghalon, ac rwy' am fod yno drwy'r amser!"

Bu i staff y llyfrgell annog Gloria i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y llyfrgell, ac mae'r rhain wedi helpu i wella ei hiechyd meddwl hefyd. Ymunodd â'r grŵp Gwau a Chlonc wythnosol, a dywedodd: "Rwy'n teimlo'n falch iawn fy mod i'n gallu crosio eto, ac rwy' wedi cwrdd â ffrindiau newydd. Mae un aelod arall o'r grŵp yn dioddef gorbryder hefyd, felly rwy' wedi bod yn gefn iddi hi. Mae aelod arall o'r grŵp yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae hyn wedi fy ysbrydoli i ailgydio yn y Gymraeg, ac rwy'n ymarfer bob wythnos gyda hi. Mae'r grŵp yn codi fy ysbryd ac yn gwneud i mi deimlo'n llawer gwell."

Mae Gloria hefyd yn mynd i'r grŵp 'Ffrindiau Digidol' wythnosol, sef grŵp cymorth TG i bobl hŷn. Mae hi wedi dysgu sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae hi wedi dod i gysylltiad â ffrindiau'r aelod o'i theulu a fu farw. Mae hyn wedi ei helpu i ymdopi â'i phrofedigaeth. Mae hi bellach yn defnyddio TG yn hyderus. Dywedodd: "Mae dysgu i syrffio'r we wedi ehangu fy mywyd. Rwy'n gallu chwilio am wybodaeth. Wythnos diwethaf, fe wnes i ddysgu sut i newid fy nghyflenwr nwy a thrydan. Doeddwn i ddim yn gallu credu fy mod wedi arbed cymaint o arian. Mae'r llyfrgell yn fy helpu i arbed arian o hyd."

*Nid ei henw go iawn



# Llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) am y defnydd a wnaed o lyfrgelloedd cyhoeddus yn 2015-16 yn adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd ym maes cyllid llywodraeth leol, yn ogystal â newidiadau yn y gymdeithas. Er gwaethaf gostyngiad bach iawn o 1.6% mewn ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd, maent yn parhau i fod yn adnodd pwysig i bobl Cymru, gyda thros 13.4 miliwn o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn 2015-16. Mae hyn yn gyfwerth â 10 gwaith nifer yr ymwelwyr blynyddol cyfartalog â Stadiwm Principality, er enghraifft. Cafodd y gostyngiad bach yn nifer y llyfrau a fenthyciwyd ei wrthbwyso gan gynnydd o 5% yn nifer y deunyddiau clyweledol a gafodd eu lawrlwytho a'u benthyg. Gellir priodoli hyn yn rhannol i wasanaeth cydgysylltiedig y llyfrgell ddigidol genedlaethol, a hwn oedd y cynnydd mwyaf ar draws cenhedloedd y DU.

Ym mis Awst 2016, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig pan fu i chwe gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus y Gogledd lansio system rheoli llyfrgelloedd cyhoeddus newydd a rennir. Mae'r system hon yn gam pwysig o ran cydweithio ar draws gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Drwy rannu un system, gall y gwasanaethau llyfrgell arbed swm sylweddol o'i gymharu â chaffael a gweithredu systemau ar wahân. Mae i'r system a rennir hefyd nifer o fanteision i gwsmeriaid y llyfrgelloedd, gan gynnwys y gallu i lawrlwytho e-adnoddau'n ddi-dor ac i fenthyg ystod ehangach o ddeunyddiau llyfrgell. Mae'r system bellach yn cael ei chyflwyno ledled Cymru. Cafodd y prosiect ei enwi ar y rhestr fer i ennill Gwobr GO am gydweithredu ym mis Hydref 2016.

Ym mis Mawrth 2016, cynhaliodd llyfrgell Glannau Dyfrdwy ddathliad gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd i nodi bod dros gant o lyfrgelloedd wedi'u moderneiddio ledled Cymru o ganlyniad i arian grant Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2016, dyfarnwyd arian i chwe llyfrgell arall, ac mae dros £15 miliwn bellach wedi'i fuddsoddi ers sefydlu'r gronfa.

Mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus wedi parhau i hybu ac i annog plant Cymru i ddarllen er pleser. Ar ôl cyflwyno'r cynllun Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell yn raddol dros ddwy flynedd, rhoddwyd y cynllun ar waith yn ardaloedd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod 2016. O dan y cynllun, mae pob plentyn ym Mlwyddyn 4 mewn ysgolion cynradd yn cael eu cofrestru'n awtomatig fel aelodau o'u llyfrgell leol. Mae'r cynllun hwn yn cydweddu â chynlluniau llythrennedd eraill fel Sialens Ddarllen yr Haf ac ymgyrch Llywodraeth Cymru, Mae addysg yn dechrau yn y cartref.

Yn 2016, roedd Sialens Ddarllen yr Haf yn seiliedig ar thema Roald Dahl i nodi canmlwyddiant geni'r awdur. Bu i'r thema Darllen Mawr Direidus ennyn brwdfrydedd plant a staff y llyfrgelloedd fel ei gilydd, a bu dros 39,000 o blant yn cymryd rhan yn y Sialens ledled Cymru, gyda 58% yn ei chwblhau. Am yr ail flwyddyn, bu gwirfoddolwyr ifanc yn rhan o'r Sialens hefyd, a bu dros 135 o bobl ifanc (12 i 24 oed) yn gwirfoddoli mewn llyfrgelloedd cyhoeddus dros yr haf.

Bu llawer o'r llyfrgelloedd yn hyrwyddo'r anturiaethau a geir drwy ddarllen llyfrau gan ddefnyddio thema'r Flwyddyn Antur. Roedd yr ymgyrch #CaruLlyfrgelloedd yn gysylltiedig â'r thema hon, yn ogystal â'r flwyddyn Darllen Beiddgar a gafodd ei chreu a'i chynnal gan chwe gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus y Gogledd.

Gan fod y cyllidebau'n llai, cynhaliwyd adolygiad ac ymgynghoriad ynghylch dyfodol nifer o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn 2016. Bydd canlyniadau'r ymgyngoriadau hyn yn dod i'r amlwg yn 2017, ac mae MALD yn parhau i fonitro effaith unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Yn ystod 2016, cafodd y perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn 2015-16 ei asesu. Yn ôl y disgwyl, mae gwariant refeniw wedi gostwng ar draws y gwasanaethau llyfrgell o'i gymharu â 2015, ac mae'r sefyllfa ariannol anodd y mae'r awdurdodau lleol yn ei hwynebu'n parhau i fod yn her fawr o ran darpariaeth a pherfformiad nifer o'r awdurdodau. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad mewn rhai meysydd defnydd, mae'r lefelau bodlonrwydd yn dal i fod yn uchel, mae aelodaeth o lyfrgelloedd yn cynyddu'n araf, ac mae nifer y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddi anffurfiol mewn llyfrgelloedd wedi cynyddu.

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau llyfrgell yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau rhagorol i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaeth yn dal i fod yn gryf mewn rhai awdurdodau. Mewn awdurdodau eraill, mae angen i waith ailstrwythuro diweddar ennill ei blwyf cyn bod modd dod i gasgliadau ynghylch y newidiadau. Serch hynny, mae gwasanaethau llyfrgell yn dal i gael effaith fawr ac, er bod y cyllidebau'n gostwng, mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl ac i gymunedau ac, yn aml, maent yn "rhaff achub" i'r cyhoedd yng Nghymru.



# Astudiaeth achos 2

## Cynhwysiant cymdeithasol, gwirfoddoli, cymorth i gael hyd i waith

Mae Anna* yn 20 oed ac mae hi wedi bod yn ddi-waith am rai misoedd. Mae hi'n byw gartref ac mae hi'n helpu i ofalu am ei nai sydd â Syndrom Down. Un o'r prif rwystrau sy'n atal Anna rhag cael hyd i waith yw gorbryder cymdeithasol sy'n effeithio ar ei hunan-dyb a'i hunanhyder.

Mae'r gwasanaeth llyfrgell lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi bod yn cydweithio i wella gwaith partneriaeth. Mae hyfforddwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith yn cynnal apwyntiadau rheolaidd gyda chwsmeriaid y Ganolfan Byd Gwaith yn y llyfrgell. Gall y cwsmeriaid ddefnyddio holl wasanaethau'r llyfrgell, ac maent yn defnyddio llyfrau hunangymorth ac yn darllen cylchgronau ar-lein i'w helpu i chwilio am waith yn well. Dywedodd hyfforddwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith: "Yn ddieithriad, rydym wedi cael adborth eithriadol o gadarnhaol gan gwsmeriaid y Ganolfan Byd Gwaith. Mae amgylchedd anffurfiol a hamddenol y llyfrgell wedi helpu i feithrin gwell perthynas rhwng yr hyfforddwyr gwaith a'r cwsmeriaid." Drwy fod yn y llyfrgell, mae'r hyfforddwr gwaith wedi dod i gysylltiad â darparwyr gwasanaethau eraill sy'n defnyddio'r llyfrgell hefyd, a bu modd iddi gael swyddi i ddau o'i chwsmeriaid.

Cyfarfu Anna â'i hyfforddwr gwaith yn y llyfrgell, ac ymunodd â'r llyfrgell am y tro cyntaf. Yn fuan, dechreuodd bori drwy gylchgronau am ddim, a'u lawrlwytho, i feithrin ei sgiliau a'i gwybodaeth.

Mae Anna wedi bod eisiau gweithio gyda phlant erioed, a dechreuodd wirfoddoli fel cynorthwyydd yn sesiynau amser stori'r llyfrgell, gan ychwanegu gwerth at y sesiynau drwy helpu'r storïwr a diddanu'r plant.

Dywedodd Anna: "Mae cael cyfle i weithio fel rhan o grŵp yn y llyfrgell wedi ei gwneud yn llawer haws i mi ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol eraill a rhyngweithio â phobl. Rwy' wastad wedi bod eisiau gweithio gyda phlant. Drwy helpu yn ystod y sesiynau amser stori, rwy'n cael cyfle i ddysgu ar yr un pryd, ac mae'n rhywbeth gwych i'w ychwanegu at fy CV."

Mae ei hyfforddwr gwaith yn falch iawn o'r cynnydd y mae wedi'i wneud: "Ers iddi ddechrau mynd i'r llyfrgell, mae hyder a chymhelliad Anna, a'i brwdfrydedd at waith, wedi gwella'n aruthrol i'r graddau ei bod wedi rhoi cyflwyniad i gwsmeriaid eraill am ei phrofiad hi. Mae hi wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith a chael geirda rhagorol. Mae hi'n edrych ymlaen at wirfoddoli yn y llyfrgell, ac mae'n gam cyntaf tuag at ei swydd ddelfrydol o weithio gyda phlant."

*Nid ei henw go iawn


THEY LIVED TO TELL THE TALE
MODERN WORLD

# Llyfrgelloedd academaidd ac arbenigol

Erbyn hyn, mae naw prifysgol Cymru, yn ogystal â llyfrgelloedd y GIG yng Nghymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn rhannu'r un system rheoli llyfrgelloedd a rhyngwyneb darganfod. Bu i'r sefydliadau olaf lansio Ex-Libris Alma a Primo ym mis Awst 2016. Dim ond ychydig dros flwyddyn a gymerodd i gyflwyno'r system yn llwyr, ac mae'r system newydd yn gyfrwng i gydweithio'n agosach ac yn ehangach ac i wneud mwy o waith i agor casgliadau a'u rhannu er budd pawb.

I ddathlu, cynhaliodd Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru, Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru (CILIP Cymru) a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ddigwyddiad "Dathlu Cydweithio rhwng Llyfrgelloedd" yn y Senedd ym mis Medi 2016. Roedd yn gyfle i nodi'r systemau rheoli newydd ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus a llyfrgelloedd academaidd. Bu Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, yn siarad yn y digwyddiad a dywedodd: "Rwy'n falch iawn o allu dathlu'r cydweithio a'r arloesi sy'n digwydd yn llyfrgelloedd Cymru, ac rwy'n ymfalchïo yn y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ddau brosiect partneriaeth hyn."

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol CILIP Cymru yn Abertawe yn 2016. Thema'r gynhadledd oedd "Rhannu, Ysbrydoli, Arwain". Roedd staff llyfrgelloedd o bob sector yn bresennol yn y gynhadledd, a chyhoeddwyd mai Dylan Hughes, cyn-Reolwr Hamdden a Llyfrgelloedd Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam, sydd bellach wedi ymddeol, oedd enillydd Gwobr Llyfrgellydd y Flwyddyn Cymru 2016.

Cafodd nifer o lyfrgelloedd prifysgol eu hadnewyddu yn 2016. Ar nodyn llai calonogol, ym mis Hydref, dechreuodd tân dros nos yn y llyfrgell ar gampws Tycoch Coleg Gŵyr Abertawe, gan ddinistrio'r llyfrgell. Fodd bynnag, mae colegau eraill wedi dod i'r adwy a helpu i sefydlu cyfleuster dros dro.

Ymgysylltu â'r cyhoedd oedd un o brif amcanion y llyfrgelloedd yn 2016.

Enillodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru "Wobr Gwirfoddoli Archifau" genedlaethol yn 2016 am ei chynllun gwirfoddoli, 'Ein Helpu i Gyflawni'. Fel rhan o'r cynllun, mae'r Llyfrgell wedi cydweithio â chymuned eang a chael cymorth gan ystod amrywiol o wirfoddolwyr. Yn ogystal â helpu'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion, mae unigolion wedi cael budd o'r cynllun hefyd, gyda thua 20% o'r gwirfoddolwyr yn camu ymlaen i swyddi â thâl.

Cynhaliodd y Llyfrgell Genedlaethol ran yn y "Diwrnod Meddiannu" cenedlaethol ar 10 Tachwedd. Ar y Diwrnod Meddiannu, bu plant yn gweithio ar ddesg yr Ystafell Ddarllen, yn casglu, didoli a stampio eitemau o'r casgliadau ar gyfer darllenwyr, yn ymgymryd â gwaith cadwraeth, yn tywys ymwelwyr o amgylch yr arddangosfeydd, a hyd yn oed yn helpu'r staff diogelwch i fonitro'r ystafell reoli. Cynhaliwyd y Diwrnod Meddiannu, a drefnwyd gan yr elusen Kids in Museums ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglen Cyfuno, mewn amgueddfeydd, cestyll, plastai hanesyddol, llyfrgelloedd ac archifdai ledled Cymru. Dywedodd yr actor, Michael Sheen, noddwr Kids in Museum: "Mae'r Diwrnod Meddiannu'n rhoi cyfle i gannoedd o bobl ifanc … roi cynnig ar rywbeth newydd … [a chael] pobl i wrando ar eu lleisiau."

Daliwyd ati i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy ddulliau digidol, a hynny drwy waith allgymorth Wicipediwr Preswyl Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Jason Evans. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau golygathon yn Aberystwyth ac mewn lleoliadau eraill yng Nghymru i gynyddu ac i wella'r cynnwys am Gymru ar Wikipedia, yn ogystal â phrosiectau ar ddata agored cysylltiedig a rhannu delweddau digidol.

Cafodd delweddau'r Llyfrgell Genedlaethol eu hychwanegu at dros fil o erthyglau Wikipedia sydd wedi'u gweld filiynau o weithiau gan ddod â sylw byd-eang i'r Llyfrgell Genedlaethol a'i chasgliadau.



# Astudiaeth achos 3

## Cyngor, pobl hŷn, arbed arian, iechyd a llesiant

Bu Mrs D yn ymweld â'r llyfrgell ar sawl achlysur yn ystod sesiynau galw heibio iechyd a llesiant Macmillan gan fod ei gŵr yn dioddef â chanser. Roeddent yn ei chael yn anodd iawn ymdopi'n ariannol gan fod incwm yr aelwyd yn isel iawn. Nid oedd Mr D yn cael unrhyw driniaeth ar y pryd, ac roeddent wedi gwneud cais i gael grant gan Macmillan yn y gorffennol. Roeddent yn ei chael yn anodd iawn gwresogi'r cartref gan fod y system gwres canolog yn hen iawn ac yn aneffeithlon.

Drwy drafod â Chydgysylltydd Gwasanaeth Gwybodaeth Macmillan sy'n cynnal sesiynau yn y llyfrgell, daeth i'r amlwg nad oedd Mr D na Mrs D yn cael Lwfans Gweini, sef budd-dal i bobl anabl 65 oed a throsodd y mae angen cymorth arnynt gyda gofal personol. Cawsant eu hatgyfeirio at y gwasanaeth pensiynau er mwyn i'r ddau ohonynt wneud cais i gael y lwfans a chredyd pensiwn. Cawsant gyngor a gwybodaeth hefyd ynghylch cymorth i wresogi'r cartref.

O ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol a'r atgyfeiriadau, cafwyd cynnydd o £350 yn incwm wythnosol aelwyd Mr a Mrs D. Daethant i wybod eu bod hefyd yn gymwys i gael cymorth gan gynlluniau eraill, a chafodd bwyler a rheiddiaduron newydd eu gosod yn eu cartref am ddim.

Dywedodd Mrs D: "Alla i ddim credu'r cynnydd enfawr yn ein hincwm, a'r gwahaniaeth enfawr y bydd hyn yn ei wneud i'n bywydau. Roedden ni wastad yn pryderu am droi'r system wresogi ymlaen, ond does dim rhaid i ni bryderu mwyach. Rydyn ni wedi cael cymorth aruthrol gan gydgysylltydd Macmillan a'r llyfrgell, a dydw i ddim yn credu ei bod hi'n sylweddoli pa mor ddiolchgar ydyn ni am ei chymorth."

Pe na bai'r llyfrgell yn darparu gwasanaeth Cydgysylltydd Gwybodaeth Macmillan, gallai hanes y pâr hwn fod yn wahanol iawn.


Slide into a book...